



Prif Weithredwr

£ Cystadleuol

Mae Criced Cymru am ganfod a phenodi Prif Weithredwr rhagorol i arwain ein sefydliad. Mae Criced Cymru yn un o 39 o Fyrddau Criced sy'n rhan o Fwrdd Criced Cymru a Lloegr (ECB) ac mae'n cael ei gydnabod gan Chwaraeon Cymru a Llywodraeth Cymru fel Corff Llywodraethu Cenedlaethol criced yng Nghymru.

Mae ein gweledigaeth yn un syml, sef bod 'Criced yn cipio'r dychymyg yma yng Nghymru' a'n nod yw cyflawni'n strategaeth '[Ysbrydoli Cenedlaethau](#)' mewn partneriaeth â'n cydweithwyr a'n cyfeillion yng Nghlwb Criced Morgannwg, a'n prif noddwyr, sef yr ECB, Chwaraeon Cymru, Chance to Shine a Lord's Taverners. Rydym yn bodoli 'i arwain, ysbrydoli a dylanwadu ar dwf, ansawdd a hygyrchedd criced yng Nghymru'.

Rydym wedi'n ffurfio o nifer o sefydliadau criced gwahanol o bob cwr o Gymru, gyda phob un yn rhannu'r un angerdd am y gêm. Mae ein cenhadaeth yn canolbwyntio ar gefnogi amcanion, nid yn unig Criced Cymru a Morgannwg, ond hefyd ddyheadau'r ECB a Llywodraeth Cymru, gan 'gysylltu cymunedau a gwella llesiant drwy ysbrydoli pobl i ganfod eu hangerdd am criced.'

Mae dros 250 o glybiau, cynghreiriau a chymdeithasau, yn cynnwys bron i 25,000 o bobl yn perthyn i Criced Cymru. Mae'r rhain yn cynnwys Clybiau a Chymunedau Criced; Cynghreiriau Hŷn; Cymdeithasau Rheolwyr Caeau Criced; Cymdeithas Swyddogion Criced Cymru; Cymdeithas Hyfforddwyr ECB a Thîm Cymru Sirol Cenedlaethol.



Bydd ein Prif Weithredwr newydd yn arweinydd gweladwy sydd â'r gallu i reoli ac annog ymhellach dîm bach, gwasgaredig yn ddaearyddol, i barhau i berfformio mewn ffordd ragorol i gynyddu cyfranogiad yn y byd criced. Mi fyddwch yn deall y pŵer sydd gan chwaraeon i newid bywydau mewn ffordd bositif, a bydd gennych y gallu i hyrwyddo'r gwaith a wnawn i godi proffil Criced Cymru. Byddwch yn gallu cydweithio'n effeithiol ag amrywiaeth eang o randdeiliaid, ar lefelau uchaf y Llywodraeth a'n partneriaid ariannu, a chyda'n holl gyfranogwyr a gwirfoddolwyr ar draws y gêm. Rhan ganolog o lwyddo yn y rôl fydd y gallu i fod yn greadigol o ran cynhyrchu referniw a sicrhau twf incwm yn y dyfodol. Ond, yn fwy na dim, byddwch yn darparu arweinyddiaeth ac ymrwymiad, i hyrwyddo a sicrhau egwyddorion tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn ni, ac fel conglfafen i'r sefydliad.

Mae hwn yn gyfle prin go iawn i ymuno â sefydliad sydd â hanes balch a chyfoethog, yn ogystal â dyfodol cyffrous. Byddwch yn gweithio gyda thîm brwdfrydig a dawnus sy'n cael ei arwain gan Fwrdd Cyfarwyddwyr gwirioneddol ymroddgar a deinamig, i'n helpu i gyflawni'n strategaeth, a fydd yn arwain ein sefydliad i'r cyfnod nesaf o lwyddiant, ar, ac oddi ar y cae.



Mae McBride Sport wedi'u dewis ar ran Criced Cymru i gynnal y broses chwilio. I dderbyn copi o'r pecyn ymgeiswyr, e-bostiwch gopi o'ch CV at nedwards@mcbride-sport.com

Mae Criced Cymru wedi ymrwmo i ddarparu cyfleoedd cyfartal. Er y byddwn bob amser yn penodi ar sail teilyngdod, byddem yn annog ceisiadau yn arbennig oddi wrth grwpiau a chymunedau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ym myd criced – yn enwedig merched neu bobl o gefndiroedd ethnig amrywiol, neu rai sydd ag anabledd.

Mae Criced Cymru wedi ymrwmo i ddiogelu ac amddiffyn y plant a phobl ifanc sy'n cymryd rhan yn y gêm. Fel y cyfryw, mae'r holl swyddi'n amodol ar broses recriwtio diogel, gan gynnwys, lle bo'n berthnasol, datgelu cofnodion troseddol a chynnal gwiriadau fetio. Mae rôl y Prif Weithredwr yn bodloni meini prawf Gweithgaredd a Reoleiddir ac felly bydd unrhyw gynnyg o gyflogaeth yn amodol ar gwblhau tystysgrif DBS Manylach foddhaol.

